**Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2019 yn y Pencadlys Tân ac Achub, Parc Busnes Llanelwy**

**Yn bresennol**
Antony P Young, Cadeirydd
Sally Ellis
Julia Hughes
Y Cynghorydd Dylan Rees, Cyngor Sir Ynys Môn

Gareth Owens, Dirprwy Glerc
Alwen Davies, Swyddog Cyswllt yr Aelodau

**Ymddiheuriadau**
Y Cynghorydd Owen Thomas, Cyngor Sir y Fflint

1 DATGANIADAU O FUDDIANT

1.1 Dim.

2 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

2.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Hydref 2018 fel cofnod cywir.

3 MATERION YN CODI

3.1 Panel Dyfarnu Cymru - cadarnhaodd y Dirprwy Glerc fod llythyr wedi'i anfon at Lywodraeth Cymru am y diffyg hyblygrwydd gyda'r sancsiynau posibl a osodir gan y Panel; roedd Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau na fyddai'n newid yr ystod o sancsiynau sydd ar gael i Bwyllgorau Safonau.

4 POLISI CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

4.1 Cyflwynodd y Dirprwy Glerc y polisi cyfryngau cymdeithasol diwygiedig i Aelodau ei ystyried ac argymell ei gymeradwyo i'r Awdurdod Tân ac Achub.

4.2 Hysbyswyd yr Aelodau bod yr Awdurdod wedi mabwysiadu protocol cyfryngau cymdeithasol yn 2014. Ni wnaed unrhyw newidiadau sylweddol gan fod y polisi'n dal i fod yn berthnasol i raddau helaeth. Fodd bynnag, ers hynny mae CLlLC wedi cyhoeddi ei chanllawiau ei hun ar gyfer cynghorwyr.

4.3 Trafododd yr Aelodau bolisi diwygiedig yr Awdurdod a theimlent y dylid ei gadw gan ei fod yn cyfeirio at ddefnydd aelodau o'r cyhoedd a staff o'r cyfryngau cymdeithasol yn ogystal ag aelodau'r Awdurdod. Fodd bynnag, teimlai'r Aelodau hefyd y dylid mabwysiadu canllawiau CLlLC ochr yn ochr â pholisi'r ATA gan eu bod yn gynhwysfawr iawn o ran defnydd yr Aelodau o'r cyfryngau cymdeithasol.

4.4 **PENDERFYNWYD argymell i'r Awdurdod Tân ac Achub:**
**(i) gymeradwyo'r polisi cyfryngau cymdeithasol diwygiedig;**
**(ii) mabwysiadu canllawiau cyfryngau cymdeithasol CLlLC ar gyfer cynghorwyr.**

5 ADOLYGIAD O'R WEITHDREFN GWYNO MEWN PERTHYNAS AG AELODAU

5.1 Cyflwynodd y Dirprwy Glerc yr adroddiad a roddodd gyfle i'r Aelodau adolygu'r weithdrefn ar gyfer ymdrin â chŵyn am aelod o'r Awdurdod.

5.2 Nodwyd bod y ddogfen wedi'i diwygio'n sylweddol i adlewyrchu mabwysiadu'r weithdrefn ddatrys leol sy'n broses gyfryngu, felly dim ond ar drydydd cam a cham olaf cŵyn y bydd y Pwyllgor Safonau yn cymryd rhan.

5.3 Gofynnodd yr Aelodau i baragraff gael ei gynnwys yn esbonio'r broses apelio – y bydd yn cael ei gyfeirio at Banel Dyfarnu Cymru. Cytunwyd hefyd y dylai paragraff 10.30 groesgyfeirio ac ystyried canllawiau Panel Dyfarnu Cymru ynghylch sancsiynau posibl.

5.4 **PENDERFYNWYD cytuno ar y diwygiadau arfaethedig i'r weithdrefn gwyno ac argymell ei chynnwys yng Nghyfansoddiad yr Awdurdod.**

6 ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT Y PWYLLGOR SAFONAU I'R ATA

6.1 Cyflwynodd y Dirprwy Glerc adroddiad blynyddol drafft y Pwyllgor Safonau i'w gymeradwyo er mwyn ei gyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub.

6.2 Darperir adroddiad i'r Awdurdod yn flynyddol fel mater o lywodraethu corfforaethol da. Trafododd yr Aelodau ei gynnwys gan nodi nad oedd y swydd wag ar gyfer aelod annibynnol wedi'i llenwi. Cytunwyd y byddai hon yn cael ei ailhysbysebu ar wefan yr Awdurdod, ac y byddai'r Dirprwy Glerc yn ei dosbarthu i swyddogion monitro ar draws Gogledd Cymru i'w hyrwyddo o fewn aelodaeth eu pwyllgor safonau.

6.3 **PENDERFYNWYD cymeradwyo adroddiad blynyddol drafft y Pwyllgor Safonau 2018-19 i'w gyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2019, yn amodol ar y Pwyllgor Safonau yn peidio â chymryd unrhyw gamau pellach cyn diwedd mis Mawrth 2019.**

7 PRESENOLDEB CYNGHORWYR YNG NGHYFARFODYDD ATA

7.1 Rhoddodd y Dirprwy Glerc yr wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am bresenoldeb Aelodau'r ATA mewn cyfarfodydd; cadarnhaodd fod presenoldeb wedi gwella drwy ddilyn y llwybr anffurfiol o gysylltu â phrif weithredwyr awdurdodau lleol i drafod unrhyw faterion yn ymwneud â phresenoldeb. Cytunodd yr Aelodau felly i fonitro hyn mewn cyfarfodydd yn y dyfodol a derbyn adroddiadau am dueddiadau presenoldeb.

7.2 **PENDERFYNWYD i'r Pwyllgor fonitro presenoldeb Aelodau'r ATA mewn cyfarfodydd a chael adroddiadau rheolaidd ar dueddiadau presenoldeb.**

8 CYFARFOD NESAF

8.1 Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Iau 21 Tachwedd 2019 am 9.30 am.